



CREU ARGRAFF

2025 – Adolygiad Blwyddyn

YN 2025 ROEDD THEATR Y SHERMAN UNWAITH ETO AR FLAEN Y GAD YM MYD THEATR CYMRU AC YN ARWAIN AR YSGRIFENNU NEWYDD CYMREIG.

Trwy berfformiadau o'n cynyrchiadau clodwiw ledled Cymru ac yn Llundain – cynyrchiadau a grëwyd yn ein hadeilad yng nghanol Cathays – rydym wedi helpu i godi proffil theatr Gymreig.

Fe wnaethom barhau i ddatblygu cynulleidfa dda ar gyfer ysgrifennu newydd yng Nghymru, gan ddangos bod awydd gwirioneddol am ysgrifennu unigryw, difyr am y byd o'n cwmpas.

Gweithiodd teulu eithriadol o weithwyr llawrydd ochr yn ochr â'n tîm arbenigol i ddod â'n cynyrchiadau a Grëwyd gan y Sherman yn fyw.

Credwn yng ngrym theatr i uno pobl. Mae ein rhaglenni ar gyfer cymunedau a phobl ifanc wedi ysbrydoli a dod â phobl at ei gilydd.

CRÛWYD YNG NGHAERDYDD I GYMRU A THU HWNT

5 premiére byd o gynyrchiadau
a Grëwyd gan y Sherman o
ddramâu gan ysgrifenwyr
o Gymru ac ysgrifenwyr sy'n
byw yng Nghymru

5 cyd-gynhyrchiad
gyda chwmnïau ledled
Cymru a Lloegr

2 adfywiad o
gynyrchiadau a
Grëwyd gan y
Sherman yn sgil
galw enfawr gan
y cyhoedd

4 taith ledled Cymru

Fe wnaethom ymgysylltu
â gweithwyr llawrydd ar
gyfer 197 o ymrwymïadau
yn ystod y flwyddyn



Ym mis Mai 2025 fe gyhoeddwyd
mai Francesca Goodridge yw ein
Cyfarwyddwr Artistig newydd

Fe welwyd ein cynyrchiadau ledled
Cymru ac yn Llundain

PORT TALBOT COED DUON WRECSAM
CAS-GWENT YSTRADGYNLAIS
ABERHONDDU PENYGRAIG Y BARRI
LLUNDAIN ABERTAWE ABERYSTWYTH
ABERDAUGLEDDAU YR WYDDGRUG
CAERNARFON BANGOR

319

319 – cyfanswm o
berfformiadau yn
Theatr y Sherman

200

200 perfformiad o gynyrchiadau a Grëwyd
gan y Sherman gartref yng Nghaerdydd

72

72 perfformiad o
gynyrchiadau a Grëwyd
gan y Sherman yn Llundain,
Abertawe neu ar daith

53,227

53,227 o bobl wedi mynychu perfformiad yn y Sherman



32,376

32,376 o bobl wedi mynychu perfformiad o gynhyrchiad a Grëwyd gan y Sherman yn y Sherman

9,223

9,223 o bobl wedi profi cynhyrchiad a Grëwyd gan y Sherman yn Llundain, Abertawe neu ar daith

38% o gyfanswm y gynulleidfa yn Theatr y Sherman yn blant neu'n bobl ifanc dan 25 oed

38%

2,373 o docynnau wedi'u gwerthu drwy ein cynllun tocynnau hygyrch Talwch Faint Fynnwch

2,373

CYNYRCHIADAU PREMIÈRE BYD

HOT CHICKS

Gan Rebecca Jade Hammond

Cyd-gynhyrchiad gydag Uchelgais Grand
Perfformiwyd yng Nghaerdydd
ac Abertawe

★★★★ The Guardian


★★★★ The Stage

PORT TALBOT GOTTA BANKSY

Gan Paul Jenkins a Tracy Harris

Cyd-gynhyrchiad gyda Theatr3

Perfformiwyd yng Nghaerdydd ac ar daith
ledled de Cymru a gorllewin Cymru



Llun: Mark Douet

DYNOLWAITH

Gan Leo Drayton

Cyd-gynhyrchiad gyda Frân Wen

Perfformiwyd yng Nghaerdydd
ac ar daith ledled Cymru

★★★★ The Guardian

★★★★ The Stage



Llun: Craig Fuller



THE FROG PRINCE / BIWTI A BROGS

Gan Gwawr Loader

Cyd-gynhyrchiad gyda Theatr Cymru

Perfformiwyd yng Nghaerdydd
ac ar daith ledled de Cymru

Llun: Chillee Noir



ALICE: RETURN TO WONDERLAND

Gan Hannah McPake

Perfformiwyd yng Nghaerdydd

★★★★ The Guardian

★★★★ The Stage

Llun: Mark Douet

REVIVALS

★★★★ The Telegraph ★★★★★ The Stage
★★★★ Whatsonstage

★★★★ The Financial Times ★★★★★ The London Evening Standard

THE WOMEN OF LLANRUMNEY

Gan Azuka Oforka

Cyflwynwyd gan Stratford East a Theatr y Sherman
Cynhyrchwyd yn wreiddiol gan Theatr y Sherman
Perfformiwyd yng Nghaerdydd a Llundain

Llun: Chuko Cribb

HOUSEMATES

★★★★★ The Observer

Gan Tim Green

Cyd-gynhyrchiad gyda Hijinx
Perfformiwyd yng Nghaerdydd
ac ar daith ledled Cymru

Llun: Mark Douet

CYDNABYDDIAETH



RHESTR FER

Theatr y Flwyddyn,
Gwobrau The Stage
2025



STAGE 100

Joe Murphy a Julia Barry wedi'u
cynnwys ar restr o bobl fwyaf
dylanwadol yn niwydiant y theatr



Takisha Sargent

ENILLYDD

CYFARWYDDWR

CERDD GORAU

Black British Theatre
Awards



Davina Moss

Rheolwr Llenyddol

Theatr y Sherman

ENILLYDD

Gwobr Anogaeth
Theatr Olwen Wymark



Suzanne Packer a
Stella-Jane Odoemelam

ENWEBWYD

Black British Theatre
Awards



SIOEAU GORAU 2025

HOT CHICKS a DYNOLWAITH

wedi'u dewis ar gyfer rhestr
The Stage o 50 sioe orau'r
flwyddyn



THE BRITISH BLACKLIST

Dewiswyd THE WOMEN OF LLANRUMNEY
gan The British Blacklist fel un o'i brif
ddramâu yn 2025

PEIRIANDY THEATR CYMRU

Mae Theatr y Sherman wrth galon creu theatr yn ne Cymru. Drwy gydol 2025 parhaodd ein Tîm Llenyddol i ddatblygu a meithrin ysgrifenyddiaeth Gymru a'r rhai sy'n byw yng Nghymru ar bob cam o'u gyrfaedd. Fe gefnogodd tîm y Sherman gwmnïau a gwneuthurwyr theatr sy'n dod i'r amlwg ac fe ddarparodd y Sherman ofod creadigol cynhwysol a chroesawgar ar gyfer y sector cyfan.







Drwy gydol 2025 bu
ein tîm Llenyddol yn
rhyngweithio neu'n
gweithio gyda mwy na
200 o ysgrifenydd o
Gymru ac ysgrifenydd
sy'n byw yng Nghymru



Fe wnaethon ni gynnal
17 o sesiynau ar gyfer
ysgrifenydd sy'n cyfateb
i fwy na 36 awr o
hyfforddiant am ddim



Fe wnaethom ddarllen mwy na 50 o sgriptiau gan ysgrifenwyr nad ydynt wedi'u comisiynu na'u rhaglennu gan y Sherman, gan ddangos ein cefnogaeth i'r sector ehangach



Fe wnaethon ni gwrdd â mwy na 100 o ysgrifenwyr unigol, a hynny drwy gyfarfodydd un-i-un, i siarad am eu dramâu a chefnogi datblygiad eu gyrfa



Fe wnaethom gynnig mwy na 300 awr o le i ysgrifennu am ddim i'n hartistiaid, gan ddefnyddio'r Ystafell Ysgrifenwyr yn yr adeilad fel adnodd a rennir

Ym mis Ebrill 2025, dechreuon ni bartneriaeth newydd gyda Bad Wolf i gefnogi gwaith parhaus adran Lenyddol y Sherman. Yn ogystal â darparu nawdd hanfodol, bydd y bartneriaeth hon hefyd yn hwyluso ehangu cyfleoedd i ysgrifenyddyr sydd am greu gwaith ar gyfer y llwyfan a'r sgrin.

Yng Ngŵyl Ymylol Caeredin, fe wnaethom gefnogi, am y pedwerydd tro'n olynol, artist neu gwmni Cymreig sy'n dod i'r amlwg fel rhan o raglen Partneriaethau Cenedlaethol Caeredin y Pleasance. Fe berfformiwyd RELAY gan Leila Navabi yn y Pleasance Courtyard i theatrau llawn trwy gydol y rhediad ac fe greodd gryn argraff ar gynulleidfaoedd.

Ochr yn ochr â hyn, fe gefnogodd y Sherman dderbynwyr bwrsariaethau Cymru yng Nghaeredin yn ystod eu hamser yn yr ŵyl.

Ym mis Medi 2025, fe wnaethom gefnogi a chyd-gynhyrchu NO MAN'S LAND gan Rachel Trezise gyda Kyle Stead a Theatrau RhCT.



YSGOGI POBL IFANC

Mae ein cynlluniau Theatr leuenctid yn ysbrydoli cyfranogwyr ifanc i wneud byd gwell, yn eu ffordd eu hunain. Mae'r cynlluniau'n annog pobl ifanc nid yn unig i fynegi eu hunain yn greadigol ond hefyd i wneud cyfraniad go iawn i'r byd o'u cwmpas.

374
374 o sesiynau wedi'u cynnal
ar gyfer pobl ifanc yn 2025

1.372
Fe wnaethom weithio gyda / ymwneud â 1,372 o blant a phobl ifanc ar draws ein gweithgarwch leuenctid ac Addysg



Llun: Chillee Noir

Fe wnaethom gydweithio â Phartneriaeth SAFE / Cronfa Gwaddol Ieuenctid Cyngor Caerdydd ar weithgarwch o amgylch HOT CHICKS er mwyn cynnig gweithdai creadigol i bobl ifanc sy'n agored i niwed. Fe arweiniodd hyn at rannu gwaith a digwyddiad gala yn Theatr y Grand Abertawe gydag uchelgais Grand a YHub.

Ym mis Ebrill, roedd y Sherman unwaith eto'n hafan ar gyfer pobl greadigol ifanc ledled de Cymru, drwy gynnal GŴYL THEATR IEUENCTID. Fe roddodd yr ŵyl gyfle i arddangos y cwmnïau theatr ieuenctid fwyaf disglair a chyfle i gyfranogwyr gwrdd â phobl ifanc eraill a dysgu sgiliau newydd.

Yn y gwanwyn fe unwyd lleisiau dwy o'n rhaglenni datblygu creadigol allweddol ag un o ddramodwyr mwyaf blaenllaw Cymru drwy gydweithrediad arloesol ac ysbrydoledig THE PILOT gan Jennifer Lunn. Gweithiodd y dramodydd arobryn Jennifer Lunn gyda charfan gyfredol ein rhaglen Cyflwyniad i Ysgrifennu Dramâu, ar gyfer pobl ifanc 15-18 oed, er mwyn datblygu'r ddrama newydd feiddgar hon a berfformiwyd gan aelodau hŷn Theatr Ieuenctid y Sherman.



Yn yr haf fe ddaeth ein cynhyrchiad Theatr Ieuencid – **THE HAUNTING OF SHERMAN HOUSE** – â holl grwpiau'r cynllun ynghyd ar Lwyfan y Stiwdio.

theatre works!

Ym mis Rhagfyr 2025 roedd modd i ni gefnogi dwy ysgol yng Nghaerdydd i ddod â dros 400 o bobl ifanc i fwynhau perfformiad o *Alice: Return to Wonderland*, ein sioe Nadolig yn ein Prif Theatr, diolch i grant gan theatre works!

Moondance Foundation

Mae dros 90 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn rhaglen *Cyflwyniad i Ysgrifennu Dramâu* r Sherman diolch i gefnogaeth barhaus gan Moondance Foundation.

Hanner Marathon Caerdydd

Ddydd Sul 5 Hydref fe gymerodd grŵp ymroddedig o naw rhedwr rhan yn Hanner Marathon Caerdydd i godi arian hanfodol ar gyfer Cronfa Rhannu Eich Angerdd y Sherman. Mae'r gronfa'n cynnal mynediad fforddiadwy ar draws ein gwaith ymgysylltu creadigol ac allgymorth.

DOD Â DE CYMRU YNGHYD

Mae Theatr y Sherman yn lle i gysylltu, yn lle sy'n llawn empathi, rhywle y gellir rhannu safbwyntiau a gall pawb deimlo'n ddiogel ac yn gartrefol. Mae ein rhaglenni cymunedol wedi'u cynllunio i sicrhau bod gan bawb y cyfle i gael mynediad at theatr a gall cymunedau gymryd rhan weithredol ac elwa o allu theatr fyw i uno.

Fe wnaethom gydweithio / ymwneud
â 378 o gyfranogwyr cymunedol

Drwy ein gwaith gyda chymunedau fe wnaethom gydweithio â'r 38 sefydliad canlynol:

- ◆ Gweithredu yng Nghaerau a Threlái (ACE)
- ◆ Actors Workshop
- ◆ Aubergine Arts
- ◆ Canolfan Gymunedol Cathays
- ◆ Dinas Noddfa Caerdydd
- ◆ Cyngor Caerdydd/Partneriaeth SAFE/Cronfa Gwaddol Ieuenctid
- ◆ Band Bwyd Caerdydd
- ◆ Coleg Caerdydd a'r Fro
- ◆ Prifysgol Caerdydd a Phartneriaid Glasu Cathays
- ◆ Dovetail Orchestra/Actifyddion Artistig
- ◆ Breakthrough Arts (ECSOPA gynt)
- ◆ Frân Wen
- ◆ Uchelgais Grand
- ◆ Hijinx
- ◆ Rhwydwaith Addysgu yn y Cartref
- ◆ Ysgol ILM
- ◆ Kinetic Theatre
- ◆ Cymdeithas Cwrdaidd Cymru Gyfan
- ◆ Neuadd Llanrhymni
- ◆ Mess Up the Mess
- ◆ National Theatre Connections
- ◆ Oasis
- ◆ Oasis One World Choir
- ◆ Platform, Canolfan Mileniwm Cymru
- ◆ Spare – Plant y Cymoedd
- ◆ Taking Flight, Theatr Ieuenctid Fyddar
- ◆ Theatr3
- ◆ Theatre Café
- ◆ Theatr Glo (Coleg Merthyr Tudful)
- ◆ The Gambas
- ◆ The Wallich
- ◆ Trinity Aurora Collective
- ◆ Somalia Land Organisation
- ◆ Ukrainian Singing Circle
- ◆ Yr Urdd
- ◆ Ysgol Mynydd Bychan



Ym mis Tachwedd fe gadwodd Theatr y Sherman ei statws fel THEATR NODDFA. Mae'r teitl yn cydnabod y Sherman fel lle y gall pawb deimlo'n ddiogel ac yn gartrefol.

Fe ymunodd 130 o bobl â ni ym mis Mehefin ar gyfer ein Dathliad Noddfa



Ym mis Gorffennaf,
fe gyflwynodd ein
hensemble amatur,
y Sherman Players,
QUIZ gan James
Graham

Drwy gydol y flwyddyn fe wnaeth ein tîm anhygael
o Dywyswyr Gwirfoddol roi croeso cynnes i'n
cynulleidfaoedd, gan barhau ein henw da. Trwy
sesiynau hyfforddi mae ein Gwirfoddolwyr wedi
cael cyfle i ddysgu ystod eang o sgiliau.

Mae'r Sherman yn gartref
i Gaffi Trwsio Cymru
Cathays ar ddydd Sadwrn
cyntaf pob mis.

CYNALIADWYEDD

Buddsoddiad Cyfalaf y Celfyddydau

Ym mis Hydref 2025, buom yn llwyddiannus yn ein cais am grant Buddsoddiad Cyfalaf y Celfyddydau gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gefnogi gwaith hanfodol yn atgyweirio adeiladau ac ailosod offer sy'n heneiddio.

Theatres Trust

Ym mis Chwefror 2025 roeddem yn ffodus i fod yn un o naw theatr a ddyfarnwyd cyllid iddynt gan y Theatres Trust, drwy'r Cynllun Gwella Theatr mewn partneriaeth â Wolfson Foundation. Mae'r gefnogaeth yma wedi'n galluogi ni i ddechrau ar y broses o uwchraddio ein system goleuo llwyfan i system goleuadau LEDs ynni-effeithlon, gan ein helpu ni i wella effeithiolrwydd ynni a lleihau'r ynni a ddefnyddiwn.

MYNEDIAD WRTH GALON EIN GWAITH



Craidd

Mae'r Sherman yn falch o fod yn rhan o fenter Craidd. Nod Craidd yw rhoi mynediad a chynhwysiant wrth galon y theatr yng Nghymru. Mae'r consortiwm yn cynnwys Theatr Clwyd, Theatr y Sherman, Pontio, Theatr Torch a Theatr Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Mobile Connect

Yn 2025, fe osodwyd system chwyddo gwella sain Mobile Connect er mwyn gwneud y Sherman yn fwy hygyrch i gynulleidfaoedd Byddar a thrwm eu clyw. Mae ychwanegu Mobile Connect a system dolen clyw nid yn unig yn ein dwy awditiwr ond ar draws ein hadeilad wedi gwella mynediad ar draws yr adeilad cyfan.

Clwb Byddar y Theatr

Fe dyfodd ein Clwb Byddar y Theatr i drwy gydol 2025 ac fe gynyddodd eu hymrwymiad.